**Platfform**
Prif Swyddfa
Beaufort House,
Beaufort Road
Abertawe
SA6 8JG

olivertownsend@platfform.org
platfform.org

**For mental health and social change**
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

**30ain Tachwedd 2023**

# Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

## Cyflwyniad i'n Hymateb:

Nid ydym erioed wedi cyflwyno ymateb i bwyllgor fel yr un hwn, mewn dros 30 mlynedd o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru i bobl sy'n profi heriau iechyd meddwl, argyfwng tai neu ddigartrefedd.

Ysgrifennwn hwn gan deimlo'n ddigalon a di-rym i gyflawni'r newid y mae arnom angen ei weld ar gyfer dyfodol y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ill dau yng Nghymru.

Mae'n amlwg i ni fod llawer o Aelodau ar draws y Senedd, yn mynd i fod yn teimlo'r un ymdeimlad o ofid am y gyllideb sydd ar y gorwel. Ddaeth neb i mewn i wleidyddiaeth, yn sicr nid yng Nghymru, i wylio ein gwasanaethau cyhoeddus yn chwalu. Bydd ein hymateb yn boenus i'w ddarllen, fel y mae'n boenus i'w ysgrifennu. Mae hi hyd yn oed yn fwy poenus i fyw'r profiad ohono bob dydd. Ni allwn gynnig atebion neu ddatrysiadau hawdd, nid ydynt yn bodoli. Yn hytrach, roeddem am rannu profiadau'r bobl rydym yn eu cefnogi, ein cydweithwyr yn Platfform, ac amlygu prif feysydd yr heriau i'n sefydliad ni a'r trydydd sector yn ehangach. Rydym hefyd wedi cynnwys astudiaethau achos sy'n edrych ar, er enghraifft, sut mae gwaith cymorth tai yn edrych, ac i ystyried mewn manylder pa mor galed y mae'r gwaith hwn wedi mynd dros y blynyddoedd diweddar.

Mae hyn hefyd wedi ein harwain ni at wneud argymelliadau sy'n ehangach ac yn fwy cyffredinol na dim ond galw am gyllid – er mai heriau ariannu'r yw'r canolbwynt mwyaf pwysig i ni yn yr ymateb hwn.

Bob blwyddyn, rydym yn gwybod bod sefydliadau ledled Cymru yn rhybuddio am yr heriau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Yn aml, mae'n cael ei weld fel rhan o 'ddawns' gwleidyddiaeth a gosod cyllidebau. Yn yr ymateb hwn rydym am ei gwneud yn hollol glir: rydym yn agos iawn i'r hwch fynd trwy'r siop yn llwyr. Mae ein cydweithwyr wedi cyrraedd y pen, mae ein gwasanaethau yn cael trafferth i gwrdd ag anghenion mwy dwys y bobl rydym yn eu cefnogi, mae'r holl system yn gynyddol fethu ac ymateb mewn unrhyw ffordd effeithiol. Nid yw hon yn storm dymor byr y gallwn ddod trwyddi. Mae'r storm hon wedi bod yn codi ers blynyddoedd lawer. Mae'r rhain yn heriau strwythurol, tymor hir sydd angen gweddnewidiad sylfaenol.

Platfform is the trading name of Platfform for Change – Registered in England and Wales
Company number: 02546880 – Registered charity number: 1000889

**Parhad**

Ni allwn gymedroli ein geiriau eleni. Nid yw hyn er mwyn codi cywilydd neu ofn yn ein cynrychiolwyr etholedig yn y Senedd. Mae hyn i dystiolaethu, mewn modd mor wir ac onest â phosibl, y dioddefaint rydym yn ei weld. Pan mae pethau'n teimlo'n anobeithiol, a phan nad oes gennym unrhyw rym i greu newid o gwbl, yr un peth y gallwn ei wneud yw anrhydeddu ein profiadau a rhoi llais i'n poen.

Mae'n boenus ac rydym yn gwybod y bydd aelodau a swyddogion y Senedd yn teimlo hynny hefyd. Mae pobl dda ar bob lefel o'r system yng Nghymru, ac mor anobeithiol ac y teimlent, maent yn dal i godi bob bore, gan fynd i'r gwaith a thrio eu gorau. Ond mae hyn yn cael effaith, ac rydym yn ei deimlo. Ac nid ni'n unig, rydym wedi colli cyfrif o'r sgyrsiau rydym wedi eu cael eleni gyda sefydliadau eraill sydd yn yr un stad o anobaith ag yr ydym ni.

Mae ein pryder pennaf ar gyfer yr ymateb hwn hefyd am ystyried sut ydym yn gweithio ar y cyd i gynllunio sut dros y tymor hirach i adfer.

Dyma lle mae'n rhaid i ni gael hyd i'n gobaith. Ledled Cymru, yn dilyn y penderfyniadau a wnaed ar gyfer y gyllideb arfaethedig, rhaid i ni gael hyd i ffordd o ddod yn ôl o'r lle tywyll rydym yn cael ein hunain ynddo, ac adeiladu rhywbeth a fydd yn trawsnewid dyfodol ein sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Dim ond gyda newid dull sylweddol y byddwn yn symud ymlaen o'r trychineb presennol. Dyma pam ein bod wedi cynnwys argymhellion tymor hirach, ochr yn ochr â'r tymor byrrach. Yr argymhellion tymor byrrach yw beth sydd arnom eu hangen er mwyn goroesi, a'r tymor hirach er mwyn ein helpu i ffynnu.

## Ynglŷn â Platfform

Ganwyd Platfform yn 2019 o Gofal, elusen iechyd meddwl a sefydlwyd yng Nghymru yn y 1980au hwyr. Dros ddegawdau o weithio ar draws y maes tai ac iechyd meddwl, cawsom ddarlun gwirioneddol o realiti iechyd meddwl mewn cymdeithas, effaith trawma, ac achosion trallod. Arweiniodd y gwaith hwnnw ni i newid ein ffocws a dod yn Platfform, yr elusen dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol.

Heddiw rydym yn gweithio gyda dros 9,000 o bobl y flwyddyn. Rydym yn cefnogi pobl o bob oed, ar draws cymunedau trefol a gwledig, yng nghartrefi pobl

**Parhad**

ac ochr yn ochr â gwasanaethau eraill. Mae ein gwaith yn cwmpasu lleoliadau cleifion mewnol, gwasanaethau argyfwng, llesiant cymunedol, tai â chymorth a digartrefedd, busnesau, cyflogaeth, cwnsela, ysgolion a chanolfannau ieuenctid.

# Crynodeb o'r Argymhellion

## *Argymhellion tymor byrrach*

**Argymhelliad 1: Mae arnom angen gweld cynnydd brys yn y Grant Cymorth Tai a fydd yn dod â ni yn unol â chynnydd ar sail chwyddiant**

Rydym wedi bod yn dweud ers blynyddoedd bod y pwysau yn cynyddu. Eleni nid ydym yn gwybod sut y gallwn barhau fel yr ydym. Mae ein gweithwyr yn cael trafferth ar gyflogau isel a gyda'r pwysau o weithio heb ddigon o adnoddau, gyda gweld mwy o farwolaethau a digwyddiadau difrifol, ac rydym yn ei chael yn fwyfwy anodd i ddarparu'r cymorth ataliol y gwyddwn fod ein gwasanaethau Grant Cymorth Tai yn y lle gorau i'w ddarparu (mae ymchwil yn dangos am bob £1 fuddsoddir, mae **arbediad net** o £1.40 yn cael ei gyflawni gan y Grant Cymorth Tai)[1].

**Argymhelliad 2: Mae arnom angen gweld gwaith yn cael ei gwblhau i sefydlu'r cyfateb o lefelau diogel staff nyrsio ar gyfer llety â chymorth.**

**Argymhelliad 3: Rhaid cydnabod y rôl mae cymorth tai a digartrefedd yn ei chwarae fel darpariaeth graidd, fel y mae gwasanaethau cyhoeddus -** mae bron iawn pob person proffesiynol arall o fewn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn cael eu cydnabod, ac mae eu gwaith a'u swyddi yn cael eu deall, ond nid yw cymorth tai yn cael ei ddeall yn dda. Ond fel y gellir gweld o'r dystiolaeth a storiâu a gyflwynir heddiw, ac yn yr adroddiad *Dangos Tystiolaeth o Effaith y Grant Cymorth Tai yng Nghymru* (2020), maent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cymdeithas i ffynnu.

**Argymhelliad 4: Mae arnom angen gweld isafswm lefel cyflog wedi ei gomisiynu ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd a gwasanaethau eraill. Yn ddelfrydol, byddai hwn yn cael ei osod ar y Cyflog Byw Go Iawn (RLW) yn hytrach na'r Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW).**

---

[1] Fury, Lynn Montes a Taylor, 2020 (https://www.cymorthcymru.org.uk/wp-content/uploads/2023/05/Evidencing-the-Impact-of-HSG-CYM.pdf (cymorth cymru))

**Parhad**

## *Argymelliadau tymor hirach*

**Argymhelliad 5: Mae arnom angen symud ein gwasanaethau cyhoeddus tuag at ymagwedd a arweinir gan benderfynyddion cymdeithasol tuag at iechyd meddwl a thrallod, ac un ffordd o wneud hyn yw trwy sicrhau bod Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma yn cael ei gwreiddio yn y broses osod cyllidebau, a byddem yn argymell gweithio gyda Hyb ACE / Straen Trawmatig Cymru i ddatblygu offeryn gosod cyllideb / arian cyhoeddus sy'n ystyriol o drawma.**

Yn bresennol, nid yw'r amodau a grëwyd gan brinder yn galluogi gwasanaethau i gynnig y gwasanaeth dynol, cysylltiol sydd ar bobl eu hangen er mwyn gwella o argyfwng a thrallod. Mae hyn yn creu cost ddynol enbyd, ond hefyd yn cynhyrchu cost ariannol barhaol sy'n cynyddu'n barhaus o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dengys ymchwil [2] ar benderfynyddion iechyd nad **gofal** iechyd (hynny yw, y system ofal iechyd) yw'r unig benderfynydd. Mewn gwirionedd, mae tri darn canolog o ymchwil yn gosod cyfraniad y system ofal iechyd mor isel â 10% a byth yn ddim uwch na 43%. Golyga hyn fod y mwyafrif y gwaith sydd ei angen er mwyn atal iechyd corfforol neu feddyliol gwael angen digwydd y *tu allan* i'r systemau iechyd traddodiadol.

Mae arnom angen newid ymagweddau sydd wedi dyddio tuag at ymarferion arbed arian megis anelu am arbedion maint trwy ganoli cynyddol gwasanaethau; comisiynu gorchymyn a rheoli megis comisiynu ar sail oriau; a throi at fodelau darbodus a ddaeth o fyd gweithgynhyrchu yn hytrach na systemau cymhleth, i enwi dim ond tri. Mae ein dealltwriaeth draddodiadol o iechyd meddwl a thrallod, ac ein hymagweddau arbed arian yn y gwasanaethau cyhoeddus, ill dau yn gyrru'r system i mewn i argyfwng gwaeth.

[2] The Kings Fund, 2013 (Broader determinants of health | The King's Fund (kingsfund.org.uk))

**Parhad**

**Argymhelliad 6: Mae arnom angen sicrhau fod y trydydd sector yn cael ei chydnabod am ei gwaith ataliol mewn cymunedau a bod y dysgu sy'n digwydd o gwrdd ag angen yn gynnar, gan arbed costau, yn cael ei gasglu a'i ddeall gan swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.**

Mae'r trydydd sector yn gallu gweithredu'n hyblyg, mewn ffordd lle-ganolog, ac yn gallu creu ymddiriedaeth mewn ffordd y mae gwasanaethau mwy traddodiadol yn gallu ei chael yn anodd ei wneud. Yn gyffredinol rydym wedi'n trefnu o gwmpas pobl yn hytrach na phroblemau.

Mae'r gwaith a wna'r trydydd sector yn creu gwersi pob dydd, yn enwedig gyda gwasanaethau sy'n anelu i atal neu ymyrryd yn gynnar. Trwy weithio yn y bylchau rhwng – neu lefydd cyn - ymyrraeth gwasanaethau statudol, mae gwersi gwerthfawr yn cael eu dysgu. Fel un enghraifft benodol o hyn, mae Platfform yn clywed am yr heriau lawer mae pobl mewn argyfwng yn eu hwynebu, un o'r rhain yw cost feichus teithio i apwyntiadau mewn lleoliadau mwy canolog, sy'n golygu eu bod yn canslo neu fethu apwyntiadau gyda'r GIG. Caiff hyn ei weld gan y GIG fel y gost uchel o apwyntiadau a fethir, ond mae pwysau costau yn parhau i yrru canoli'r gwasanaethau yn hytrach na gwasanaethau datganoledig wedi'i seilio ar le.

**Argymhelliad 7: Mae arnom angen gweld mwy o ffocws ar wasanaethau sydd wedi'i seilio ar le a'u gwreiddio yn y gymuned, gyda'r trydydd sector yn chwarae rôl ganolog mewn cydlynu, yn gweithio ar ymateb i benderfynyddion cymdeithasol iechyd corfforol a meddyliol, i lwyddo i gyrraedd amcanion uchelgeisiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).**

**Argymhelliad 8: Mae arnom angen gweld gwaith brys gan Lywodraeth Cymru i ddechrau datganoliad y systemau llesiant a chyfiawnder troseddol, sy'n atal Cymru rhag gweithredu i ddelio â methiannau systematig sydd wedi gwreiddio.**

## Y gwirionedd o ddarparu gwasanaethau trydydd sector

### Bodoli mewn argyfwng, llethiant ac anobaith

Mae'r trydydd sector yn wastad wedi bodoli mewn gofod sydd rhwng ac ochr yn ochr â sefydliadau statudol neu sector cyhoeddus. Mae hyn wedi helpu creu hyblygrwydd defnyddiol, ymatebolrwydd a chreadigrwydd yn y system

**Parhad**

Nid yw hyn yn unigryw i'r trydydd sector, mae cydweithwyr ledled Cymru yn gweithio gyda'r un gwerthoedd - ond am flynyddoedd mae'r amodau a grëwyd gan y trydydd sector wedi ei gwneud yn bosibl i fagu'r ymagweddau hynny at broblemau. Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei wasgu ymhellach ac ymhellach.

Mae'r gwasgu cyson hwn wedi cyrraedd, yn ein barn ni, y pwynt lle bydd yn torri yn y pendraw. Mae'r straen a'r pwysau o gadw sefydliadau allan o ddyled, wrth geisio darparu gwasanaethau sy'n cynnig datrysiadau cadarnhaol, yn fwy cyson a dwys nac ar unrhyw adeg arall yn ein hanes. Mae pob ffynhonnell cyllid wedi ei gwasgu, ac mae arianwyr a chomisiynwyr yn gynyddol ymateb i bwysau ariannol trwy ofyn am fwy o ddogfennaeth gaeth, tystiolaeth gwariant, sy'n ychwanegu eto i'r ymdeimlad o fod wedi eu llethu o fewn y sector. Rydym yn dweud hyn heb roi bai: mae'r pwysau ar bob rhan o'r sector yn ofnadwy, ac mae'n gyrru pobl i weithredu mewn seilos, i gwrdd â'u pwysau a heriau eu hunain, heb edrych ar y system yn ei chyfanrwydd. Nid rhain yw'r amodau ar gyfer gweithio system gyfan sy'n gyd-gynhyrchiol ac wedi integreiddio.

## Rhedeg ar gronfeydd wrth gefn, sybsideiddio gwasanaethau, tynnu allan o gytundebau

Mae'r adroddiad diweddar[3] gan Cymorth Cymru yn dangos, o fewn y sector dai, y pwysau sy'n cael eu teimlo gan ddarparwyr trydydd sector ledled Cymru. Nid yn unig y mae cymhlethdod sefyllfaoedd yn cynyddu (mae 94% o sefydliadau tai trydydd sector yn cadarnhau hyn) ond mae galw yn cynyddu (81%). Bu cynnydd o 11% yn y gost o ddarparu gwasanaethau, ac mae 75% o ddarparwyr yn rhedeg gwasanaethau ar ddiffyg, gyda 52% yn defnyddio cronfeydd arian wrth gefn i gynnal y gwasanaethau hynny.

Er mwyn ymateb i hyn, nid yw 45% o ddarparwyr wedi rhoi cynnig am dendrau newydd neu rhai sy'n cael eu hail-dendro, ac mae 27% wedi gostwng capasiti eu gwasanaeth, a bu gostyngiad cyfartalog o 8% mewn oriau cefnogaeth ar draws y sector. Mae'r pwysau hefyd yn rhwystro darparwyr rhag cyflenwi yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru o berthnasu sy'n ystyriol o drawma, gyda 50% o ddarparwyr yn dweud eu bod wedi gorfod torri lawr ar wasanaethau 'nad ydynt yn hanfodol' megis gwaith gyda grwpiau sydd ar y cyrion, goruchwyliaeth glinigol, a mwy. Mae arnom angen pwysleisio nad yw hyn o ddifrif yn 'ddim yn hanfodol' ond yn aml dyma'r unig hyblygrwydd sydd ar ôl o fewn cyllidebau.

[3] Cymorth Cymru, 2023 (https://www.cymorthcymru.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/HM-report-WG-Budget-24-25-CYM.pdf (cymorthcymru.org.uk))

**Parhad**

Trwy dorri'r rhain, mae'n amhosibl darparu cefnogaeth sy'n wir effeithiol ac yn cael effaith i bobl sydd mewn argyfwng neu drallod.

**Rydym yn annog y gweithredu canlynol:**

**Argymhelliad 1:** Mae arnom angen gweld cynnydd brys yn y Grant Cymorth Tai a fydd yn dod â ni yn unol â chynnydd ar sail chwyddiant.

# Profiadau'r gweithlu

## Rôl y gweithiwr cymorth

Mae bodolaeth ddigartrefedd a'r sector cymorth yn, wrth gwrs, arwydd o fethiant parhaus y system. Mae'n bosibl datrys digartrefedd. Rydym yn gwybod ar adegau o argyfwng megis gyda'r ymateb Covid diweddar, aeth Llywodraeth Cymru i'r afael â digartrefedd ar y strydoedd gan gyda phwrpas clir ac ariannu ychwanegol. Mae'r ffaith ei fod wedi codi, ac yn parhau i godi, yn arwydd nad yw'r system yn gweithio. Mae nifer o resymau dros hyn, megis diffyg tai addas, lefel y Lwfans Tai Lleol, lefelau budd-daliadau, cynnydd yng nghostau byw a llawer mwy. Gall digartrefedd weithredu fel bom yn cael ei daflu i mewn i fywyd unigolyn - gall y system ei hun achosi niwed, gwaethygu trawma a gadael pobl yn waeth na phan ddaethant yn ddigartref. Nid yw hyn wedi ei gyfyngu i bobl sy'n cysgu ar y stryd, er mai dyma le y gwelir yr effeithiau mwyaf eithafol. Yn y gofod hwn, lle maent yn gweithio gyda phobl mewn lefelau uchel o drallod, y mae effaith gweithwyr cymorth yn cael ei deimlo fwyaf.

Yn Platfform, ein gweithwyr cymorth yw ein hased fwyaf. Maent yn mynd y filltir ychwanegol. Nid yw'r ymadrodd hwn yn cyfleu gwirionedd yr hyn maent yn ei wneud, ac felly roeddem am ei gwneud yn glir beth mae hynny'n ei olygu.

Mae diwrnod gwaith arferol i weithiwr cymorth yn dibynnu ar a ydynt yn gweithio fel rhan o dîm cefnogaeth symudol neu denantiaeth, neu a ydynt yn gweithio o fewn tai â chymorth. Mae'r ddwy rôl yn heriol yn emosiynol ac maent yn gofyn am bobl sydd â lefelau uchel o empathi, dewrder, a phenderfyniad a dygnwch. Rydym yn edmygu, yn gyson, y bobl rydym yn gweithio â hwy.  Nid rhain mo'r unig swyddi sydd gennym yn Platfform, ond maent yn ffordd ddefnyddiol o arddangos y gwaith sy'n digwydd ledled Cymru, yn aml ar gyrion ein cymdeithas, a chyda fawr o sylw gan y cyhoedd.

**Parhad**

## Astudiaeth Achos Un: Diwrnod ym mywyd gweithiwr cymorth tenantiaeth / gweithiwr cymorth symudol

Rwy'n cychwyn gwaith am 9am, ond rwyf fel rheol yn troi fy ffôn gwaith ymlaen am 8am. Mae gennyf bob amser negeseuon ffôn yn aros amdanaf. Dydd Mercher diwethaf, roedd gennyf neges llais gan rywun mewn argyfwng iechyd meddwl, a llwyddais i gysylltu â nhw tua 9am a threfnu ymweliad â hwy'r diwrnod hwnnw. Roedd gofyn i mi aildrefnu'r ymweliadau eraill y diwrnod hwnnw, gan mai hwy oedd y flaenoriaeth, ac roeddwn yn poeni y gallai hynny achosi sialens i'r bobl eraill rwy'n eu cefnogi.

Mae gan yr unigolyn hwn ddiagnosis o sgitsoffrenia, ac roeddent yn cael meddyliau paranoïg a hunanladdol. Pan gyfarfu mi â hwy, roeddwn yn gwybod eu bod angen cefnogaeth frys, felly cysylltais â'r tîm iechyd meddwl lleol. Nid oeddent mor gefnogol â hynny, felly ffoniais y Meddyg Teulu, a anfonodd fi yn ôl at y tîm iechyd meddwl. Anfonodd y rheiny fi yn ôl at y Meddyg Teulu, a anfonodd fi nôl at y tîm iechyd meddwl.

Roedd yr unigolyn hwn mewn gwir drallod, felly treuliais dair awr gyda hwy yn eu cartref, gan sicrhau eu bod yn ddiogel, gan wirio pa fesurau oedd ganddynt ar waith, ond doeddwn i dal ddim yn teimlo eu bod y ddiogel, felly cysylltais â'r gwasanaethau brys. Aethpwyd â hwy i le diogel, ac roeddwn yn gallu dychwelyd i'r swyddfa.

Erbyn hynny, roedd gennyf dair neges testun a phedair galwad wedi eu methu gan unigolyn arall roeddwn yn ei gefnogi. Pan ffoniais hwy'n ôl, roeddent wedi cyrraedd pen eu tennyn. Roeddent wedi ceisio cael parsel bwyd, ond roeddent wedi cyrraedd eu huchafswm gan y banc bwyd. Ceisiais resymu â'r banc bwyd, ond ni allent wneud eithriad gan fod y person hwn wedi cyrraedd y terfyn. Roedd yr unigolyn hwn angen bwyd ar frys, felly cefais hyd i swm bychan o arian argyfwng, gan ddefnyddio hwnnw i brynu bwyd iddynt.

Roedd dau aelod arall o staff i ffwrdd yn sâl y diwrnod hwnnw, felly roeddwn yn ceisio gwneud rhannau o'u gwaith nhw, gan ymateb i negeseuon oedd yn dod trwodd hefyd.

Tuag at ddiwedd y dydd, roedd gen i ymweliad ar y cyd gyda gweithiwr argyfwng i ymweld â ffoadur ifanc gyda statws preswylydd sefydlog, a oedd wedi bod yng Nghymru am rai blynyddoedd. Roedd y beili wrth y drws, roeddent yn cael eu troi allan o'u tŷ. Roedd y Cyngor am ei symud i mewn i lety dros dro, ond nid oedd yn addas. Roedd y Cyngor yn cytuno, ond dywedasant hefyd nad oedd ganddynt unrhyw ddewis arall o gwbl, doedd ganddynt ddim tai ar gael. Nid oedd yn le da ar gyfer y person hwn oherwydd troseddu a defnyddio o gyffuriau. Roedd yr unigolyn hwn yn bryderus y byddai ei meddyliau hunanladdol yn dychwelyd heb sefydlogrwydd a diogelwch cartref.

**Parhad**

Roedd hyn ar ddiwedd y dydd, ac fe dorrodd fi. Roeddent wedi dod i'r wlad yma i gael diogelwch ac i ddianc o'r hyn yr oeddent wedi ei brofi. Roeddent yn berson ifanc, a'r unig beth y gallwn ei wneud oedd prynu pabell a sach gysgu iddynt. Roeddent ar ei gliniau yn erfyn am help, a'r unig beth y gallaswn ei wneud oedd rhoi pabell iddynt a gwylio wrth iddynt fynd i fyny i'r mynyddoedd.

Roedd yn rhaid i mi gerdded i ffwrdd, yn teimlo'n dorcalonnus a gyda chywilydd. Rwy'n gwneud y swydd hon achos fy mod eisiau gwneud gwahaniaeth, mi es i at fy rheolwr a chwestiynu pam, ac os mai hon oedd y swydd iawn i mi bellach. Rwy'n gwneud y swydd hon gan fy mod yn caru beth mae'n sefyll amdano, ond mae gen i hefyd sialensiau gartref, ac roedd hyn yn ormod ar ben pob dim. Roedd dyddiau fel hyn yn arfer bod yn anghyffredin, ond maent yn digwydd bob wythnos nawr a dydw i ddim yn gweld sut gall unrhyw un aros yn y swydd yma fawr hirach oni bai fod pethau'n newid.

## Astudiaeth Achos Dau: Diwrnod ym mywyd rheolwr llety gyda chymorth

Am 7:50, cyrhaeddais y prosiect, yn disgwyl newyddion drwg. Roeddwn wedi methu galwad am 5am, ond roedd [y ffôn] wedi'i ddiffodd ar y pryd, felly roeddwn yn gwybod fy mod yn mynd i fod yn cyrraedd i rywbeth drwg. Pan gyrhaeddais gwelais fod gwaed ym mhobman. Roedd yn rhaid i mi adael fy hun i mewn i'w llety gan fy mod yn poeni ynghylch eu diogelwch. Pan ges i mewn i'r ystafell, dywedodd yr unigolyn ei fod wedi cael ei daro dros eu pen gan eu partner, gyda gwrthrych. Roedd yn rhaid i mi wneud yn siŵr eu bod yn iawn ac angen eu perswadio i adael i mi fynd â nhw i'r ysbyty.

Ar yr un pryd, roedd fy ffôn yn canu gan fod rhywun mewn prosiect arall yn profi seicosis ac yn cael meddyliau hunanladdol. Roedd y staff yno angen cysylltu â'r tîm argyfwng ond eisiau fy nghyngor. Roedd yn rhaid i mi jyglo wedyn, lle rwy'n blaenoriaethu. Ydw i'n eistedd gyda'r person yma sydd mewn trallod? Neu ydw i'n rhoi cefnogaeth i rywun mewn prosiect arall?

Roedd hyn ar ddechrau'r shifft, rhwng 8:00 a 9:00am.

Es i i helpu'r unigolyn oedd yn cael meddyliau hunanladdol gyrraedd ysbyty. Wedi hynny, es i yn ôl i'r prosiect cyntaf, gyda'r unigolyn a oedd wedi cael ei ymosod arno. Roeddwn angen ystyried y sefyllfa hon o bersbectif rheolwr llety - roedd yr un a gyflawnodd yr ymosodiad yn bartner iddynt, ac yn denant gyda ni mewn llety gwahanol. Felly, roedd rhaid i ni weithredu ac roedd rhaid i ni esbonio hyn i'r person a ymosodwyd arnynt, mewn ffordd nad oedd yn difetha'r ymddiried yr oeddem wedi ei adeiladu dros y blynyddoedd. Roedd hyn yn anodd iddynt hwy, ac i ninnau, gan ein bod yn gwybod fod gan yr ymosodwr eu heriau iechyd meddwl eu hunain ac nad oeddent wedi ymosod gyda bwriadau drwg, ond oherwydd y seicosis roeddent yn ei brofi.

Unwaith roedd yr heddlu wedi eu cynnwys, roedd pethau allan o'n dwylo, a gan fod yr ymosodwr wedi torri amodau mechnïaeth, roedd yn golygu na allent ddychwelyd i'w llety, gan ei gwneud yn ddigartref i bob pwrpas.

**Parhad**

Roedd hi bellach tua 12:00 – 1:00pm.

Roedd yr unigolyn a ymosodwyd arnynt dal mewn cyflwr drwg, ac felly roedd yr heddlu am iddynt fynd i uned Damweiniau ac Achosion Brys sylweddol - ond nid yw'r unigolyn hwn yn ymddiried yn hawdd iawn, felly es i gyda nhw. Tra roeddwn yn yr uned Damweiniau ac Achosion Brys, roeddwn yn dal i gael galwadau i helpu fy nghydweithwyr reoli'r sefyllfa hon, ond hefyd pobl eraill o brosiectau eraill angen cefnogaeth a chyngor gennyf fi fel rheolwr. Wedi digwyddiad fel hwn, mae'n cymryd cwpl o ddyddiau i setlo i lawr ar ôl i hyn ddigwydd, ac mae'n gadael ei ôl ar bobl yn staff a phobl rydym yn eu cefnogi.

Roedd fy shifft waith i fod o 8am hyd 8pm. Gorffennais yn yr uned Damweiniau ac Achosion Brys jyst ar ôl hanner nos, ac roeddwn i mewn yn y gwaith fore trannoeth hefyd.

Dim ond megis crafu'r wyneb oedd y diwrnod hwnnw. Roedd hyn ar ben wythnos galed gyda materion diogelu eraill. Pan welais yr alwad wedi ei methu, roeddwn yn poeni eu bod yn farw. Dyna yw realiti gwaith cymorth. Disgwyl am y gwaethaf. Rydym yn gyson mewn cyflwr o fod ar bigau'r drain, yn bryderus. Nid yw'n bosibl i'n tîm fyth deimlo wedi rheoleiddio'n llawn, bob amser yn disgwyl i rywbeth ofnadwy ddigwydd.

Rwy'n teimlo hyn trwy'r amser. Rwyf jyst yn teimlo fel ein bod ar bigau'r drain rydym wedi cael rhywun yn neidio allan o ffenestr. Rydym yn gweld hunan-anafu difrifol sydd angen sylw meddygol bob wythnos. Weithiau rwy'n teimlo llawer o euogrwydd gan ein bod yn colli pobl i hunanladdiad, ac rydym yn teimlo'n gyfrifol am bobl nad ydynt hyd yn oed yn ein gwasanaethau eto.

Yr un wythnos, cawsom hefyd brofiad sy'n dal yn fy hunllefau. Fe wnaethom asesu rhywun, a oedd wedi cael eu cyflwyno gyda hysbysiad i adael eu cartref. Byddent wedi bod yn berffaith ar gyfer ein llety â chymorth; gyda'r gefnogaeth y gallem ei roi. Ond doedd gennym ddim llefydd. Doedd gennym ddim eiddo ar gael. Byddent wedi gwneud yn dda iawn yn ein gwasanaeth. Yn drist iawn fe ddiweddasant eu bywyd yr wythnos honno, a gellid bod wedi atal hynny.

Mae'r euogrwydd yn anferth. Ydym ni yn gwneud gwahaniaeth, ydi hyn o fudd i unrhyw un?

Mae'r system yn torri. Rydym yn cael mwy a mwy wedi ei ychwanegu i'n cytundebau trwy'r amser, mwy o ddisgwyliadau gan gomisiynwyr. Rydym yn cael dyddiau da. Rydym wedi cael rhywun a'u pedwar o blant i mewn i fflat, cyn y Nadolig. Gwnaeth hynny fy wythnos yn oddefadwy. Ond mae'r system gyfan wedi ei ymestyn yn gyson. Does gennym ddim mwy o adnoddau; mae disgwyl i ni wneud mwy a mwy i gefnogi gyda dim mwy o ariannu.

Rwyf hefyd yn meddwl yn gyson am fy nhîm. Dydi'r rhan fwyaf ohonynt ddim yn gallu fforddio'r costau teithio ychwanegol rhwng prosiectau neu ymweliadau at bobl, ac ni allent fforddio hyd yn oed wythnos i'r costau traul gael eu talu. Mae'n effeithio ar ein cefnogaeth. Rwyf wedi gorfod ffitio sesiynau cefnogaeth ariannol i mewn gyda fy nhîm, i'w helpu talu eu biliau, a'r unig opsiwn sydd gennyf i'w chynnig yw mwy o shifftiau. Allon nhw ddim a fforddio byw fel arall.

Rwy'n pendroni'n aml, pam fod pobl dal yma. Mae pobl dal yma oherwydd ein bod yn gallu teimlo fel teulu, dydw i ddim yma am y tâl! Rydym yn gwneud pethau da, mae gennym lwyddiannau anhygoel, mae'r rhain yn ein cadw i fynd – ond ar hyn o bryd nid yw'n ddigon i'n cadw i fynd. Rydym i gyd yma er mwyn y bobl rydym yn eu cefnogi, a'u llwyddiannau nhw, ond mae'n rhy galed ar y funud.

**Parhad**

Fel mae’r astudiaethau achos uchod yn ei ddangos, mae’r gwaith a wna gweithwyr cymorth bob dydd yn hanfodol, ac yn werthfawr ofnadwy o ran darparu capasiti ar gyfer ymyrraeth ac ataliaeth gynnar o fewn y system. Fodd bynnag, yn gynyddol, mae’r lefelau staffio oherwydd pwysau recriwtio yn sialens.

**Rydym yn awgrymu’r gweithredoedd canlynol:**

> **Argymhelliad 2:** Mae arnom angen gweld gwaith yn cael ei gwblhau i sefydlu’r cyfateb o lefelau diogel staff nyrsio ar gyfer llety â chymorth.
>
> **Argymhelliad 3:** Mae’n rhaid i’r rôl mae cymorth tai a digartrefedd yn ei chwarae cael ei chydnabod fel darpariaeth graidd, fel y mae gwasanaethau sector cyhoeddus eraill.

## Yr effaith ar weithwyr cymorth

Fel ag y gellir gweld uchod, o’r ddwy esiampl o ddiwrnod mewn cymorth, a rannwyd gan gydweithwyr Platfform, mae’r effaith ar y gweithlu yn anferthol a bron yn hollol negyddol. Mae hyn hefyd wedi bod yn duedd tymor hir ers i bwysau ariannu a chyni ddechrau taro. Gellir crynhoi'r ddwy duedd yma fel: brwydro i oroesi a brwydro i ffynnu.

**Brwydro i oroesi:**
Caiff llawer o’n cydweithwyr ledled Platfform, fel llawer ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a chymorth tai, eu talu’r Cyflog Byw Go Iawn (RLW). Gwnaethom yr ymrwymiad hwn o fewn Platfform, gan ein bod yn credu mewn buddsoddi yn y gweithlu. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y Cyflog Byw Go Iawn wedi bod yn anodd i’n gweithlu. Rydym yn clywed esiamplau gan ein timau bob dydd o storm berffaith o bwysau’r costau cynyddol sy’n wynebu gweithwyr, a bod straen hyn yn cael effaith andwyol ar eu llesiant. Mae rhai wedi dweud eu bod yn cael trafferth fforddio gwresogi, eu bod yn methu prydau bwyd ac yn gwneud dewisiadau anodd sy’n cael effaith aruthrol ar eu hiechyd meddwl.

Mewn cyfuniad â’r realiti o weithio mewn system sydd wedi ei gorlwytho’n llwyr, dan straen, a gweithio gyda phobl sydd â lefelau uchel o anghenion, mae’n creu cylch dieflig yr ydym ni fel sefydliad yn ceisio’n gorau ymateb iddo. Ond heb gynnydd ariannol gan awdurdodau lleol, rydym yn gweld llif o staff yn gadael, a lefelau uchel o salwch ac absenoldeb.

Parhad

**Brwydro i ffynnu:**
Yn gynyddol, mae teimlad fod hyd yn oed os gall cydweithwyr ddod trwy'r argyfwng costau byw, ni all y trydydd sector gynnig y sicrwydd gwaith, y bodlonrwydd na'r datblygiad gyrfaol y mae pobl yn ei geisio (ac yn ei haeddu) yn eu gwaith. Mae'r trydydd sector wedi goroesi yn bennaf oherwydd yr alwedigaeth mae pobl yn ei theimlo yn gweithio i achosion da, ac nid oherwydd ein bod yn gallu cynnig telerau ac amodau, codiadau cyflog neu opsiynau eraill sydd ar gael i'r sector breifat, a rhai rhannau o'r sector cyhoeddus. Mae unrhyw delerau ac amodau a oedd yn gystadleuol flynyddoedd yn ôl wedi eu gwasgu neu eu diddymu gam wrth gam er mwyn dod a dau ben llinyn ynghyd.

Un enghraifft o'r sialens hon gyda datblygiad gyrfaol yw'r gwahaniaethau tal ar gyfer rheolwyr. Gyda phob cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol, a'r Cyflog Byw Go Iawn, nad yw bob amser yn cael ei gyfateb gan godiadau arian awdurdodau lleol, mae'r bwlch rhwng rheolwyr rheng flaen a staff rheng flaen wedi bod yn cau. Gyda'r cynnydd diweddaraf yn y Cyflog Byw Go Iawn, mae'r bwlch ar ei gulaf, ac rydym ni ac elusennau eraill yn ei chael yn anoddach recriwtio i swyddi rheolwyr rheng flaen - nid yw pobl eisiau cymryd lefelau uwch o straen a phryder, ac weithiau risg, am gynnydd bychan mewn cyflog. Mae hyn yn golygu'n gynyddol bod diffyg cyfleoedd datblygu gyrfa o fewn y trydydd sector, ac mae beth oedd unwaith yn cael ei weld fel gyrfa lle gellid gwneud gwahaniaeth positif wrth dal i gael safon byw da, yn llawer llai hyfyw.

**Rydym yn awgrymu'r weithred ganlynol:**

> **Argymhelliad 4:** Mae arnom angen gweld lefel isafswm cyflog wedi ei gomisiynu ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd a gwasanaethau eraill. Yn ddelfrydol, byddai hwn yn cael ei osod ar y Cyflog Byw Go Iawn (RLW) yn hytrach na'r Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW).

**Parhad**

## Yr amgylchiadau o gylch gwaith cymorth

Un o ganlyniadau'r pwysau cyllidebol parhaus yw'r diffyg amodau i alluogi neu annog gweithio perthynol ac sy'n ystyriol o drawma. Mae'n creu arfer o weithio fesul seilo, yn ddisymud ac yn peri straen wenwynig yn y bobl sy'n rhan o'r system, ac yn arwain at ymagweddau a phenderfyniadau gwrthgynhyrchiol nad ydynt yn helpu ac sy'n cael eu gwneud dan bwysau llethol. Mae hyn yn ei dro yn creu cymhelliant gwrthnysig sy'n arwain at bethau yn bod yn llai perthynol, felly nid ydym yn cymryd yr amser i gwrdd ag anghenion pobl yn effeithiol, neu rydym yn buddsoddi yn yr ymagweddau anghywir, neu rydym yn gwastraffu amser yn dilyn ymagweddau sydd wedi dyddio at gynllunio, comisiynu, monitro a darparu gwasanaethau.

Rydym yn mwynhau perthnasau cydweithiol da gyda'n comisiynwyr ac yn gwerthfawrogi maint graddfa'r her maent yn ei hwynebu. Fodd bynnag, rydym wedi profi eu straen a'u llethiant o lygad y ffynnon, a gallwn weld y dewisiadau amhosibl maent yn eu hwynebu. Rydym wedi profi'r ochr negyddol o hyn, gyda thensiwn, ymdrechion i'n gorfodi i weithredoedd penodol sydd yn erbyn ein gwerthoedd, ac ymdrechion i ddefnyddio eu grym fel comisiynwyr i ddiystyru penderfyniadau gweithrediadol rydym wedi eu gwneud er lles y bobl rydym yn eu cefnogi.

Mae arnom angen ymdrech ar y cyd gan Lywodraeth Cymru i ddeall gwirionedd comisiynu ar gyfer y trydydd sector, sy'n wahanol iawn i'r comisiynu neu gaffael gwasanaethau mewn meysydd eraill. Mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth, a byddem yn annog fod hyn yn cael ei ffurfio drwy ddatblygu model comisiynu sy'n ystyriol o drawma. Nid yw system dan drawma, straen ac wedi ei llethu mewn sefyllfa i ddylunio a chomisiynu gwasanaethau yn effeithiol. Nid yw gweithlu dan drawma mewn sefyllfa i gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol chwaith. Dyma'r gwirionedd rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd.

**Rydym yn argymell y weithred ganlynol.**

> **Argymhelliad 5:** Mae arnom angen symud ein gwasanaethau cyhoeddus tuag at ymagwedd a arweinir gan benderfynyddion cymdeithasol tuag at iechyd meddwl a thrallod, ac un ffordd o wneud hyn yw trwy sicrhau bod Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma yn cael ei gwreiddio yn y broses osod cyllidebau, a byddem yn argymell gweithio gyda Hyb ACE / Straen Trawmatig Cymru i ddatblygu offeryn gosod cyllideb / arian cyhoeddus sy'n ystyriol o drawma.

**Parhad**

## Methiannau strwythurol yn y system

### Argyfwng yn gorfodi gwariant oddi wrth ataliaeth

Rydym yn bryderus iawn am y symudiad cynyddol oddi wrth wariant ar atal, er bod hynny oherwydd angenrheidrwydd. Tra bod y pwysau tymor byr ar arian cyhoeddus yn mynnu hynny, mae'n gadael gwariant Llywodraeth Cymru yn hyd yn oed mwy agored. Mae'r pwysau cynyddol ar arian cyhoeddus ac ar awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd sy'n gweinyddu llawer o'n hariannu yn arwain at benderfyniadau'n cael eu gwneud sydd yn llawer mwy niweidiol yn y tymor hir.

Er enghraifft, diddymodd un awdurdod lleol arian ar gyfer gwasanaeth a oedd yn gallu gweithio gyda phobl dan risg o argyfwng, a oedd yn helpu cyfrannu tuag atal digartrefedd. Yn lle hynny, fe wnaethant ail-ddyrannu'r arian hwnnw, yn ogystal ag arian tebyg o ddarparwyr cefnogaeth symudol eraill i gomisiynu unedau llety gyda chymorth. Gyrrwyd hyn gan y pwysau cynyddol i symud pobl allan o lety dros dro. Fodd bynnag, trwy gymryd yr arian o'r gwaith atal cynharach i fuddsoddi mewn cefnogaeth argyfwng, dydw ddim ond yn gwaethygu'r broblem. Mewn iaith syml, bydd y llety dros dro yn llenwi yn gyflym iawn oherwydd y pwysau dychrynllyd ar y system dai - ac mewn byr amser bydd mwy o bwysau o fewn y system llety dros dro. Dim ond un enghraifft yw hon o'r cylch dieflig parhaus o fewn y system.

Cyhoeddodd awdurdod lleol arall doriadau i gefnogaeth symudol eleni, oherwydd rhesymeg debyg. Rydym am ei gwneud yn glir nad ymosodiad ar awdurdodau lleol mo hwn. Rydym yn gallu deall pam mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud, ac maent yn aml wedi eu dal rhwng dewis amhosibl a dewis annymunol. Mae arnom angen i Lywodraeth Cymru ddeall fod pwysau ariannu fel ag y maent, nid yn unig yn gyrru penderfyniadau sy'n economaidd niweidiol, ond hefyd yn ofnadwy o andwyol i wasanaethau cyhoeddus.

**Parhad**

Gellir gweld y pwysau ariannu hwn o fewn y Grant Cymorth Tai, a'r pryder gan y sectorau tai a digartrefedd y bydd hyn yn cael ei dorri yn y gyllideb ddrafft. Rydym am bwysleisio i'r pwyllgor fod y ffrwd gyllido hon yn enghraifft bwysig o wariant ataliol. Mae digartrefedd yn costio swm anferthol i bwrs y wlad bob blwyddyn, gyda'r gost o atal digartrefedd ddim ond yn ffracsiwn o hynny. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'r cyllid hwn, heb sôn am ei gynyddu.

Ar adeg pan mae cyllid cyhoeddus mewn sefyllfa enbyd, rydym angen arweinyddiaeth glir, onest gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu blaenoriaethu atal, yn agored, hyd yn oed os yw hyn yn golygu penderfyniadau anodd rhywle arall. Mae arnom angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i flaenoriaethu a chynyddu ariannu gwaith atal ar draws y llywodraeth.

Mae'r dystiolaeth dros effeithiolrwydd y Grant Cymorth Tai, a chyn hynny'r Rhaglen Cefnogi Pobl, wedi ei dystiolaethu'n dda. Ond weithiau, gall y syniad hwn o waith ataliol ymddangos fel petai wedi ei wyngalchu - ein bod yn gallu ei ddarostwng i eiriau syml nad ydynt mewn gwirionedd yn rhoi darlun o'r realiti o sut mae gwaith ataliol yn edrych. Gallwn hefyd ddisgyn i'r trap o feddwl bod gwaith ataliol yr un fath ag ymyrraeth gynnar. Mae cysylltiad rhwng y ddau, ond trwy gael gwaith ataliol wedi ei adeiladu i mewn i'r system, mae'n dal i ymwneud â gweithio gyda phobl mewn argyfwng, er mwyn osgoi *niwed mwy* yn y tymor hir.

Siaradom gydag un o'r bobl rydym yn ei gefnogi, a rannodd y stori hon. Mae'n dangos yn rymus sut mae cael gwasanaethau cefnogi i gynnal pobl sydd mewn argyfwng yn gallu atal costau llawer drutach (dynol ac ariannol) ymhellach ymlaen. Nid yw'r enghraifft rydym wedi ei dewis yn un hapus chwaith - nid yw hon yn stori ataliol lle mae popeth wedi mynd yn iawn, ac rydym yn glir hefyd fod y pwysau sy'n wynebu'r sector yn ei gwneud yn anoddach ac anoddach i weithio'n ataliol *ar bob lefel.* Yn yr enghraifft rydym yn ei rhannu, rhwystrodd y pwysau ni i fod mor ataliol ac yr hoffem fod - ond llwyddom i gael yno cyn i'r sefyllfa waethygu tu hwnt i unrhyw obaith o adfer. Rydym yn pwysleisio nad dyma'r achos bob tro. Weithiau, er gwaethaf ein hymdrechion gorau, nid ydym yn gallu cyrraedd yno yn ddigon buan, neu gyda chefnogaeth ddigon dwys.

## Astudiaeth Achos 3: Cefnogi pobl a'u cysylltu ar adegau o argyfwng

Roedd unigolyn roeddem yn ei gefnogi mewn trallod. Roeddent yn ail-fyw trawma treisgar o'r gorffennol. Golyga hyn eu bod yn dweud eu bod am 'ladd eu hunain', eu bod y gwneud bygythiadau o niwed i eraill a chyda gwrthrych miniog yn eu meddiant. Aethant i siarad â staff yn unol â'u cynllun gofal, ond oherwydd prinder

**Parhad**

staff yr unig berson y gallent nhw gael hyd iddo oedd gweithiwr asiantaeth, ac nid oedd ganddynt berthynas hir dymor neu o ymddiried gyda hwy.

> *Byddai hyn wedi bod yn gyfle i atal. Petai'r Grant Cymorth Tai yn gallu cael ei gynyddu, er enghraifft, fel nad ydym yn colli staff i swyddi manwerthu sy'n talu'n well ac os byddai isafswm lefelau staffio yn cael eu gosod ar gyfer llety â chymorth, byddem wedi bod â chydweithwyr yn bresennol a oedd â pherthynas wedi'i sefydlu, a byddai'r sefyllfa wedi gallu cael ei datrys ar y pwynt hwn, heb unrhyw fewnbwn gan wasanaethau eraill.*

Achosodd hyn fwy o drallod i'r unigolyn a dechreusant hunan-anafu, nad oeddent wedi ei wneud ers blynyddoedd lawer, fel ffordd o ryddhau rhywfaint o'u trallod. Nid oeddent yn anafu eraill gyn belled ag y gwyddid. Ond heb fod yn gwybod hynny cysylltodd staff asiantaeth ag 111 am help a dywedwyd bod ambiwlans ar y ffordd i'w helpu. Dywedwyd wrth yr unigolyn ac roeddent yn credu eu bod yn mynd i'r ward iechyd meddwl am gefnogaeth. Yn hytrach, pan agorodd yr unigolyn y drws, gwelsant swyddogion ymateb arfog yn pwyntio taser atynt, a gwaethygodd hyn eu trallod yn ofnadwy.

> *Byddai hwn wedi bod yn ail gyfle ar gyfer ataliaeth. Pe bai gennym yr hyblygrwydd a'r lle o fewn ein cytundebau ac wedi ein hariannu i greu gwell cysylltiadau gyda'r heddlu, ac 111, gallasem adeiladu perthnasau fel nac ydi swyddogion ymateb arfog yn cael eu hanfon fel yr ymateb awtomatig i adroddiadau o drais sydd yn ymwneud a niwed i'r hunan ac nid niwed i neb arall. Fe wnaeth yr ymateb hwn ddwysau'r sefyllfa o drallod i argyfwng.*

Aethpwyd â hwy i'r ysbyty, lle derbyniont driniaeth am yr hunan-anafu ar sail gorfforol, ond ni chawsant gefnogaeth iechyd meddwl. Fel sefydliad, aethom â nhw wedyn at y Meddyg Teulu, a gyfeiriodd hwy at y tîm CMHT, o le y cyfeiriwyd hwy at dîm triniaeth gartref. Gwnaeth yr unigolyn hwn hi'n glir eu bod angen amgylchedd ysbyty, a'r gefnogaeth a gynigwyd ar y ward, er mwyn teimlo'n ddiogel a chael y gofod i allu hunan-reoleiddio.

**Parhad**

*Dyma ble, er gwaethaf y sialensiau rydym yn eu hwynebu, roeddem yn gallu dod â staff arferol, yr ymddiriedwyd ynddynt i mewn i'r sefyllfa, ac roeddem yn gallu dangos i'r unigolyn hwn fod ganddynt ein cefnogaeth lwyr. Fodd bynnag, gan nad yw ein cydweithwyr bod amser yn cael eu cydnabod fel arbenigwyr, er gwaethaf eu blynyddoedd o brofiad, nid oeddent yn gallu cefnogi'r unigolyn hwn i gael y gwasanaeth roeddent ei hangen y funud honno, a gyda chyfeiriadau diangen niferus roedd llawer o wastraff yn cael ei greu. Er gwaethaf hyn, roeddem yn gallu cynnal yr unigolyn hwn ar waethaf eu trallod a rhoi gobaith iddynt.*

Fe gefnogom yr unigolyn hwn i ffonio eu tîm triniaeth gartref, a ddywedodd y buasent yn ymateb y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, dywedodd yr unigolyn hyn wrthym ei bod yn rhy hwyr, a rhanasant eu hofn y byddent yn gweithredu ar eu meddyliau hunanladdol. Fe wnaethom weithredu'n syth, trwy roi gwiriadau lles yn eu lle, a sefydlu ffyrdd i'r unigolyn allu aros yn ddiogel.

*Dyma'r pwynt lle y gall gwasanaethau cymorth ddarparu cefnogaeth ataliol hynod effeithiol, ond mae hyn yn aml cael ei arwain gan sefyllfaoedd o argyfwng o hyd. Yn y sefyllfa hon fe wnaethom roi ar waith wiriadau cyson a olygai os oedd y sefyllfa yn gwaethygu, ein bod yn gallu gweithredu ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys, ac atal anaf difrifol neu farwolaeth.*

Er gwaethaf ein cefnogaeth, fe lwyddodd yr unigolyn hwn i gael ei hunain i mewn sefyllfa lle'r oedd eu bywyd dan fygythiad, ond oherwydd y gwiriadau lles roeddem wedi eu trefnu, roeddem yn gallu gweithredu yn gyflym. Pan ffoniodd yr unigolyn 999 am help, roeddem ni hefyd yn y cefndir yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn eirioli'n gryf ar eu rhan. O ganlyniad, roeddem yn gallu cydlynu gyda'r heddlu, a gyda gwasanaethau iechyd meddwl, a chafodd yr unigolyn eu derbyn yn wirfoddol i ward lle roeddent yn teimlo'n ddiogel. Trwy eirioli dros yr unigolyn hwn, fe wnaethom gynnal ei hymddiried ynom, ac roedd ei arhosiad ar y ward yn llawer byrrach, ac maent wedi dychwelyd atom yn gyflym, ac maent yn cael eu cefnogi. Roedd yr unigolyn hwn am i ni rannu ei stori gyda'r pwyllgor.

*Mae gwerth y cymorth y gallwn ei gynnig yn glir - trwy gynnal perthnasau yn ystod argyfwng, trwy greu ymddiried fel bod pobl yn gallu datgelu eu hofnau a'u trallod, a thrwy fod wedi ein cysylltu ar y ddaear gydag amrywiaeth o wasanaethau, gallwn ymateb yn gyflym ac effeithiol iawn*

**Parhad**

> *i ymyrryd ac atal niwed gwaeth, a lleihau gwastraff yn y GIG, heddlu a systemau eraill. Fodd bynnag, mae hi'n dod yn gliriach i ni fod y gwaith ataliol rydym yn gallu ei ddarparu yn llithro ymhellach ac ymhellach i'r gofod argyfwng, yn hytrach nac ymyrraeth gynnar. Mae'r stori hon yn ei gwneud yn glir i ni werth cymorth o ran arbed costau yn y system, ond hefyd gymaint y mae ein gallu ni i wneud hyn wedi dirywio erbyn hyn.*

Yn gynyddol, mae pobl yn syrthio rhwng y bylchau, ac mae gwasanaethau Grant Cymorth Tai wedi eu llethu fwyfwy. Mae hyn yn ychwanegu pwysau sylweddol ar y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'n ychwanegu at y galw arnynt a'u llethu'n ddianghenraid. Os ydym am ostwng y pwysau ar y GIG, heddlu a gwasanaethau eraill, gan gynnwys y rheiny a ariennir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, mae arnom angen blaenoriaethu'r gwaith a wneir gan weithwyr cymorth tai a digartrefedd.

**Rydym yn awgrymu'r gweithredoedd canlynol:**

> **Argymhelliad 6:** Mae arnom angen sicrhau fod y trydydd sector yn cael cydnabyddiaeth am ei gwaith ataliol mewn cymunedau, a bod y dysgu a gynhyrchir trwy gwrdd ag anghenion yn gynnar, ac arbed costau, yn cael ei gasglu a'i ddeall gan swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.
>
> **Argymhelliad 7:** Mae arnom angen gweld mwy o ffocws ar wasanaethau sydd wedi'i seilio ar leoliad a'u gwreiddio mewn cymunedau, gyda'r trydydd sector yn chwarae rôl ganolog mewn cydlynu, yn gweithio ar ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, i lwyddo i gyrraedd amcanion uchelgeisiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
>
> **Argymhelliad 8:** Mae arnom angen gweld gwaith brys gan Lywodraeth Cymru i gychwyn datganoliad y systemau llesiant a chyfiawnder troseddol, sy'n atal Cymru rhag gweithredu i ddelio â methiannau systematig sydd wedi gwreiddio.

**Parhad**

## Canlyniadau

Ar gyfer y gyllideb hon, rydym am i'r pwyllgor ddeall pa mor wahanol mae hyn yn teimlo. Rydym yn gwybod fod arian yn dynn. Mae gennym drugaredd/dosturi/biti dros bawb sy'n ymwneud â'r penderfyniadau anodd a heriol rhain. Ar yr un pryd, mae'n bwysig i ni dystiolaethu poen y bobl rydym yn eu cefnogi, a'n cydweithwyr sy'n darparu'r gefnogaeth honno.

Bydd y gyllideb hon, yn fwy nac amryw eraill, yn bygwth torri llawer o sefydliadau ar draws y trydydd sector. Mi fydd, heb unrhyw gynnydd mewn ariannu, yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau statudol sydd eisoes dan bwysau ac yn chwalu. Mae'r dewisiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y gyllideb yn gyfyngedig, ond fel pwyllgor, rydym yn gobeithio y byddwch yn gweld yr effaith bwysig mae'r trydydd sector yn ei chael. Yn benodol, rydym yn gobeithio bod sylw yn cael ei ganolbwyntio ar sut mae gwaith a ariennir gan y Grant Cymorth Tai ac ariannu ataliol tebyg yn chwarae rhan mewn lleihau llwyth gwaith ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r atebion am sut i gwrdd â'r her hon i'w cael mewn gwneud newid sylweddol mewn ymagwedd. Dim ond trwy wneud y newidiadau sylweddol rydym wedi eu hargymell y byddwn yn gallu lliniaru'r niwed y bydd toriadau cyllid yn ei achosi. Dyma lle byddwn yn cael hyd i'n gobaith yng Nghymru, gyda'n gilydd.

**Cyflwynwyd gan Oliver Townsend**
Pennaeth Cysylltiadau a Newid
olivertownsend@platfform.org